# Penodi Uwch Gymedrolwr

## Cymhwyster TGAU (Cymwys ar gyfer y Dyfodol) Newydd Cerddoriaeth Uned 2 (Cyfansoddi)

Mae angen Uwch Gymedrolwr ar gyfer y fanyleb CBAC TGAU Cerddoriaeth newydd, Uned 2 Cyfansoddi. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw mewn cysylltiad agos â'r tîm TGAU Cerddoriaeth a sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo/iddi gyflwyno briffiau cyfansoddi newydd yn flynyddol, cyfrannu at hyfforddi cymedrolwyr, ac arwain y broses safoni yng nghynhadledd y cymedrolwyr. Hefyd, bydd disgwyl iddo/iddi gyfrannu at gyflwyno'r rhaglen DPP a bod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

**Cyfrifoldebau'r Uwch Gymedrolwr**

Mae'r Uwch Gymedrolwr yn gyfrifol am safonau cymedroli'r gwaith a asesir yn fewnol mewn canolfannau. Rhaid i'r Uwch Gymedrolwr wneud y canlynol:

- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm a chymedrolwyr, lle bo angen gwneud hynny
- cyflwyno briffiau cyfansoddi newydd yn unol â gofynion y fanyleb yn flynyddol
- mynychu a goruchwylio cynadleddau cymedrolwyr a/neu gyfarfodydd ar gyfer dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm ac archwilio, drwy samplu, safonau marcio cymedrolwyr
- monitro safonau cymedrolwyr yr uned, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a chymryd camau priodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau ar gyfer canolfannau y mae'r cymedrolwyr yn eu paratoi
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned ar fformat a ddiffinnir gan CBAC
- bod ar gael i ymgymryd ag adolygu'r cymedroli ym mhob sesiwn yn ôl gofynion CBAC yn ymwneud ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Made for Wales.
Ready for the world.

Mae swydd yr Uwch Gymedrolwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster ac mae angen ymrwymo amser sylweddol iddi. Mae angen i Uwch Gymedrolwr fod ar gael am o leiaf 10 diwrnod y flwyddyn. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu cynadleddau cymedrolwyr (4 diwrnod) a'r cynadleddau dyfarnu ym mis Gorffennaf (4 diwrnod). Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i Uwch Gymedrolwr wneud cyflwyniadau yn nigwyddiadau DPP CBAC.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rachel Edwards dros e-bost rachel.edwards@wjec.co.uk. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **11 Chwefror 2025**.

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i https://penodedigion.cbac.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu rôl yr **Uwch Gymedrolwr** ar gyfer **TGAU (CBAC) Cerddoriaeth Uned 2** ar y tab 'maes pwnc'. Sicrhewch fod pob adran arall o'ch cais wedi'i chwblhau, gan gynnwys eich cymwysterau a'ch cyflogaeth, a bod eich datganiad cefnogi yn adlewyrchu eich cais ar gyfer y rôl hon.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@cbac.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Rabina Chowdhury<br>rabina.chowdhury@cbac.co.uk<br>02920 265 019 |